# CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD

24 Tachwedd, 2023

TEITL: Cynllun Gweithredu Drafft ar gyfer datblygu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol newydd i Ogledd Cymru

AWDUR: Alwen Williams, Prif Weithredwr dros dro y CBC

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Pwrpas yr adroddiad yw cyflwyno Cynllun Gweithredu drafft arfaethedig ar gyfer datblygu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol newydd i Ogledd Cymru.

## 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Cymeradwyo'r Cynllun Gweithredu drafft arfaethedig i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

## 3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Mae dyletswydd ar y Cyd-bwyllgor Corfforedig i gynhyrchu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol ac Asesiad Effaith Llesiant Integredig ar gyfer Gogledd Cymru erbyn diwedd Mawrth 2025, yn unol â chanllawiau'r RTP ar gyfer CBCau gan Lywodraeth Cymru. Mae'r cynllun gweithredu yn nodi'r cynllun i gyflawni hyn.

## 4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi argaeledd hyd at £125,000 i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun Datblygu Rhanbarthol. Dyfernir y cyllid hwn ar sail Cynllun Gweithredu RTP boddhaol sydd â chefnogaeth a chadarnhad y CBC ac sy'n nodi sut y cyflawnir cerrig milltir yr RTP.

4.2. Mae nifer o dybiaethau gweithio wedi'u cynnwys o fewn y cynllun gweithredu, yn arbennig yng nghyswllt cyllid ac adnoddau. Caiff y tybiaethau hyn eu profi wrth i'r gwaith fynd rhagddo a bydd y CBC a rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys Llywodraeth Cymru yn cael eu diweddaru wrth i'r gwaith fynd rhagddo.

4.3. Mae'r cynllun gweithredu yn nodi'r bwriad i geisio cyfleoedd i weithio ar draws y ffin gyda Chanolbarth Cymru ar elfennau penodol o waith a allai fod yn gost effeithlon ac yn synhwyrol i'w comisiynu gyda'i gilydd.

4.4. Dylai adroddiad terfynol Comisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru, a ddisgwylir ddiwedd mis Tachwedd, gynnig data a mewnwelediad defnyddiol a fydd yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu achos dros newid erbyn diwedd Mawrth 2024.

## 5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

5.1. Mae gan Gynllun Gweithredu RTP gyfle i drosoli hyd at £125,000 mewn cyllid grant gan Lywodraeth Cymru i gefnogi ei ddatblygiad.

5.2. Amcangyfrifir bod costau llawn cyflawni'r RTP tua £270,000 fydd yn cael ei gyllido o'r cyllid grant a'r gweddill o'r gyllideb flynyddol. Mae'r costau yn seiliedig ar dybiaethau gweithio cyfredol.

## 6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

6.1. Dim goblygiadau cyfreithiol.

---

ATODIADAU:

| | |
|---|---|
| Atodiad 1 | Cynllun Gweithredu Drafft |

---

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

"Fel y nodi'r yn yr adroddiad gofyn trefniadaethol gan Lywodraeth Cymru sydd yma. Nid oes gennyf sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb."

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

"Rwyf yn fodlon fod yr amcanion cost sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad yn rhai rhesymol ac rwyf yn cefnogi'r penderfyniad a geisir."